## GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) (PONT NEWYDD DROS AFON DYFI, MACHYNLLETH)) 201-

## PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN ORFODOL YM MACHYNLLETH YN SIROEDD POWYS A GWYNEDD

Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio drafft o Orchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth)) 201-, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y Gorchymyn hwn ac, os gwneir ef, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod at ddiben:

(a) adeiladu'r darnau newydd o gefnffordd;

(i) o bwynt ar gefnffordd bresennol yr A487 sydd i'r gogledd o linell ganol Pont Reilffordd Machynlleth, yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd, ac yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, gan groesi'r ffin Sirol i ymuno â chefnffordd bresennol yr A487 i'r de o'i chyffordd â'r B4404 i'r de o fferm Y Ffridd, Machynlleth;

(ii) o bwynt ar gefnffordd bresennol yr A487 sydd i'r gogledd o linell ganol Pont Reilffordd Machynlleth ac yna'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain i gysylltu â Ffordd Fynediad bresennol Parc Eco Dyfi,

yng Nghymuned Tref Machynlleth yn Sir Powys ac yng Nghymuned Corris yn Sir Gwynedd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi a Thynnu Statws Cefnffordd, Machynlleth) 201-;

(b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd, yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth) (Ffyrdd Ymyl) 201-;

(c) gwella'r gefnffordd yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd;

## THE WELSH MINISTERS (THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK ROAD (A487) (NEW DYFI BRIDGE, MACHYNLLETH)) COMPULSORY PURCHASE ORDER 201-

## COMPULSORY PURCHASE OF LAND AND NEW RIGHTS AT MACHYNLLETH IN THE COUNTIES OF POWYS AND GWYNEDD

The Welsh Ministers have prepared in draft The Welsh Ministers (The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge, Machynlleth)) Compulsory Purchase Order 201-, under sections 239, 240, 246, 250 and 260 of the Highways Act 1980 and under section 2 of, and paragraph 1(1)(b), (3) and (4) of Part 1 of Schedule 2 to, the Acquisition of Land Act 1981. The Welsh Ministers are proposing to make this Order and if made the Order will authorise the Welsh Ministers to purchase compulsorily the land and new rights described below for the purpose of:

(a) the construction of the new lengths of trunk road;

(i) from a point on the existing A487 trunk road north of the centreline of Machynlleth Railway Bridge, extending in a northerly direction, and then in a north easterly direction, crossing over the County border to join the existing A487 trunk road south of its junction with the B4404 south of Y Fridd Farm, Machynlleth;

(ii) from a point on the existing A487 trunk road north of the centreline of Machynlleth Railway Bridge and then extending in an easterly direction to connect to the existing Dyfi Eco Park Access Road,

in the Community of Machynlleth Town in the County of Powys and in the Community of Corris in the County of Gwynedd, in pursuance of the Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge and De-trunking, Machynlleth) Order 201-;

(b) the construction and improvement of highways and the provision of new means of access to premises, in the said Communities, in the said Counties, in pursuance of The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge, Machynlleth) (Side Roads) Order 201-;

(c) the improvement of the trunk road in the said communities, in the said counties;

(d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod;

(e) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r gwaith gwella priffyrdd hwnnw ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac,

(f) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth neu ddefnydd o'r priffyrdd y bwriedir eu gwella ar eu hamgylchoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft ac o'r map cysylltiedig ar bob adeg resymol rhwng 27 Medi 2017 a 18 Hydref 2017 yn y mannau a ganlyn;

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Spa Road East, Llandrindod, Powys LD1 5LG;
- Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB;
- Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH;
- Y Plas, Machynlleth, Powys SY20 8ER;
- Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Stryd Fawr, Tywyn LL36 9AE.

Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft yn ysgrifenedig a'i gyfeirio at y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 18 Hydref 2017 a dylai nodi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod qA1254159, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fo Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd.

(d) the execution of works on watercourses in connection with the construction of the new trunk road and the construction and improvement of other highways and the execution of other works mentioned above;

(e) use by the Welsh Ministers in connection with such improvement of highways and the execution of other works mentioned above; and,

(f) the mitigation of any adverse effects which the existence or use of certain of the highways proposed to be improved will have on the surroundings thereof.

A copy of the draft Order and accompanying map may be seen at all reasonable hours from 27 September 2017 to 18 October 2017 at the following venues;

- Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ ;
- Powys County Council, County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG.
- Gwynedd Council, Meirionnydd Area Office, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB
- Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, LL55 1SH
- Y Plas, Machynlleth, Powys, SY20 8ER
- Bro Dysynni Leisure Centre, High Street, Tywyn LL36 9AE.

Any objection to the draft Order must be made in writing to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ before 18 October 2017 and should state the title of the Order, the reference qA1254159, the grounds of objection and the objector's address and interests in the land. Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a Trunk Road Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (select 'Legislation', 'Subordinate Legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Non-Statutory Instruments', 'Highways Act Side Roads and Compulsory Purchase Orders').

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD**

SYLWER: Dynodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau wrth ochr yr eitem honno isod.

**YNG NGHYMUNED TREF MACHYNLLETH YN SIR POWYS**

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A487, troetffordd/ ffordd feiciau Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8, bwnd amddiffyn rhag llifogydd a ffordd fynediad i Barc Eco i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian ac i'r de o Bont ar Ddyfi. (Plotiau 1, 1a, 1b, 1c).

Rhan o hanner lled a llain ymyl Cefnffordd yr A487 Heol y Doll, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 a Llwybr Arfordir Cymru, rhan o Drac Mynediad presennol Network Rail a rhan o arglawdd rheilffordd, o dan Bont Reilffordd Machynlleth a Rheilffordd y Cambrian ac i'r gogledd ohonynt, i'r dwyrain ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487. (Plotiau 2, 2a, 2b, 2c, 2d, 2e, 2f, 2g, 2h).

Rhan o drac mynediad dienw/ heb awdurdod i gerbydau, rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 a Llwybr Arfordir Cymru, yn union i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487. (Plotiau 3, 3a).

Rhan o dir pori a ffos ddraenio i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487; rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, troetffordd/ ffordd feiciau Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Troed Rhif 1 a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8, llain galed a thir pori i'r de o Bont ar Ddyfi ac i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487; rhan o dir pori, glan yr afon a rhan o droetffordd/ ffordd feiciau Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Troed Rhif 1 a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487, i'r de o afon Dyfi ac i'r de-orllewin o bont droed y Mileniwm; yr hawl i fynd ar dir pori a rhan o

**DESCRIPTION OF THE LAND AND THE NEW RIGHTS**

NOTE: The land comprised in each item below is identified on the map referred to in the draft Order by means of the number or numbers against that item below.

**IN THE COMMUNITY OF MACHYNLLETH TOWN IN THE COUNTY OF POWYS**

Part of existing A487 Trunk Road, footway/ cycleway of the Wales Coast Path and National Cycle Route No.8, flood protection bund and Eco Park access road located north of the Cambrian Railway and south of Pont-ar-Ddyfi. (Plots 1, 1a, 1b, 1c).

Part of the half width and verge of the Heol Y Doll A487 Trunk Road, part of National Cycle Route No. 8 and the Wales Coast Path, part of existing Network Rail Access Track and part of railway embankment, located under and north of Machynlleth Railway Bridge and Cambrian Railway, east and west of existing A487 Trunk Road. (Plots 2, 2a, 2b, 2c, 2d, 2e, 2f, 2g, 2h).

Part of Unnamed/ unauthorised vehicular access track, part of the half width of the existing A487 Trunk Road, part of National Cycle Route No.8 and Wales Coast Path, located immediately north of Cambrian Railway and west of the existing A487 Trunk Road. (Plots 3, 3a).

Part of pasture land and drainage ditch located north of the Cambrian Railway and west of the existing A487 Trunk Road; Part of half width of existing A487 Trunk Road, footway/ cycleway of the Wales Coast Path, Footpath No.1 and National Cycle Route No.8, hardstanding and pasture land located south of Pont-ar-Ddyfi and east of the existing A487 Trunk Road; Part of pasture land, riverbank and part of footway/ cycleway of the Wales Coast Path, Footpath No.1 and National Cycle Route No.8 located east of existing A487 Trunk Road, south of River Dyfi and to southwest of Millenium footbridge; the right to enter upon pastureland and part of footway/ cycleway of the Wales Coast Path, Footpath No.1 and National Cycle

droetffordd/ ffordd feiciau Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Troed Rhif 1 a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487, i'r de o afon Dyfi ac i'r de-orllewin o bont droed y Mileniwm at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur traphont newydd Cefnffordd yr A487 a llwybr cludo dros dro. (Plotiau 4a, 4b, 4c, 4d, 4e, 4f, 4g, 4h, 4j, 4k, 4L, 4m, 4n, 4p, 4q, 4r, 4s, 4t, 4u, 4v, 4w, 4x, 4y, 4z, 4aa, 4ab, 4ac, 4ad, 4ae, 4af, 4ag, 4ah, 4aj, 4ak, 4aL, 4am, 4an, 4ap, 4aq, 4ar, 4as, 4at, 4au, 4av).

Rhan o dir pori i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487. (Plotiau 5, 5a, 5b, 5c, 5d, 5e, 5f, 5g, 5h, 5j, 5k, 5L).

Rhan o dir pori i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487; rhan o dir pori i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian, i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487 ac i'r dwyrain o Barc Eco Dyfi; rhan o dir pori i'r de o afon Dyfi, i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487 ac i'r gogledd o Barc Eco Dyfi; rhan o dir pori, ffos ddraenio a hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487 i'r de o afon Dyfi ac i'r gogledd o Barc Eco Dyfi i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487; rhan o dir pori i'r de o afon Dyfi ac i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian i'r dwyrain o Barc Eco Dyfi ac i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r bwnd llifogydd a'r mynedfeydd preifat newydd; yr hawl i fynd ar dir pori i'r de o Bont ar Ddyfi ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r ffos ddraenio. (Plotiau 6, 6a, 6b, 6c, 6d, 6e, 6f, 6g, 6h, 6j, 6k, 6L, 6m, 6n, 6p, 6q, 6r, 6s, 6t, 6u, 6v, 6w, 6x, 6y, 6z, 6aa, 6ab, 6ac, 6ad, 6ae, 6af, 6ag, 6ah, 6aj, 6ak, 6aL, 6am, 6an, 6ap, 6aq, 6ar, 6as, 6at, 6au, 6av).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487 a llain ymyl yn union i'r de o gyffordd bresennol yr A487/ mynedfa Parc Eco Dyfi. (Plot 7).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487 a llain ymyl yn union i'r gogledd o gyffordd bresennol yr A487/ mynedfa Parc Eco Dyfi. (Plot 8).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487 a llain ymyl i'r gogledd o gyffordd bresennol yr A487/ mynedfa Parc Eco Dyfi. (Plot 9).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, llain ymyl a thir pori i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487 i'r gogledd o Barc Eco Dyfi; rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, ffos ddraenio, llain ymyl a thir pori i'r dwyrain o

Route No.8 located east of existing A487 Trunk Road, south of River Dyfi and to southwest of Millenium footbridge for all purposes connected with the construction and maintenance of the new A487 Trunk Road viaduct structure and temporary haul route. (Plots 4a, 4b, 4c, 4d, 4e, 4f, 4g, 4h, 4j, 4k, 4L, 4m, 4n, 4p, 4q, 4r, 4s, 4t, 4u, 4v, 4w, 4x, 4y, 4z, 4aa, 4ab, 4ac, 4ad, 4ae, 4af, 4ag, 4ah, 4aj, 4ak, 4aL, 4am, 4an, 4ap, 4aq, 4ar, 4as, 4at, 4au, 4av).

Part of pasture land located to the north of the Cambrian Railway and west of the existing A487 Trunk Road. (Plots 5, 5a, 5b, 5c, 5d, 5e, 5f, 5g, 5h, 5j, 5k, 5L).

Part of pasture land located north of the Cambrian Railway and west of the existing A487 Trunk Road; part of pasture land located north of the Cambrian Railway, east of the existing A487 Trunk Road and east of Dyfi Eco Park; Part of pasture land located south of River Dyfi, east of existing A487 Trunk Road and north of Dyfi Eco Park; part of pasture land, drainage ditch and half width of the existing A487 Trunk Road located south of River Dyfi and north of Dyfi Eco Park to east of existing A487 Trunk Road; part of pasture land located south of River Dyfi and north of Cambrian Railway to west of existing A487 Trunk Road; the right to enter upon pasture land located north of Cambrian Railway to east of Dyfi Eco Park and east of existing A487 Trunk Road for all purposes connected with the construction and maintenance of the new flood bund and private means of accesses; the right to enter upon pasture land located south of Pont-ar-Ddyfi and to west of existing A487 Trunk Road for all purposes connected with the construction and maintenance of the drainage ditch. ( Plots 6, 6a, 6b, 6c, 6d, 6e, 6f, 6g, 6h, 6j, 6k, 6L, 6m, 6n, 6p, 6q, 6r, 6s, 6t, 6u, 6v, 6w, 6x, 6y, 6z, 6aa, 6ab, 6ac, 6ad, 6ae, 6af, 6ag, 6ah, 6aj, 6ak, 6aL, 6am, 6an, 6ap, 6aq, 6ar, 6as, 6at, 6au, 6av).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road and verge located immediately south of the existing A487/ Dyfi Eco Park access junction (Plot 7)

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road and verge located immediately north of the existing A487/ Dyfi Eco Park access junction (Plot 8)

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road and verge located north of the existing A487/ Dyfi Eco Park access junction (Plot 9)

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, verge and pasture land located to the east of the existing A487 Trunk Road north of Dyfi Eco Park; part of the half width of the existing A487 Trunk Road, drainage ditch, verge and pasture land located to the east of the existing A487 Trunk Road south of

Gefnffordd bresennol yr A487 i'r de o afon Dyfi; rhan o dir pori, glan yr afon a rhan o Lwybr Troed 14 i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487 i'r de o afon Dyfi; yr hawl i fynd ar dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o Barc Eco Dyfi a Rheilffordd y Cambrian at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r bwnd amddiffyn rhag llifogydd a thraphont newydd Cefnffordd yr A487; yr hawl i fynd ar dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487 i'r de o afon Dyfi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw traphont newydd Cefnffordd yr A487; yr hawl i fynd ar dir pori i'r de o afon Dyfi ac i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r ffos ddraenio ac adfer Llwybr Troed 14. (Plotiau 10, 10a, 10b, 10c, 10d, 10e, 10f, 10g, 10h, 10j, 10k, 10L, 10m, 10n, 10p, 10q, 10r, 10s, 10t, 10u, 10v, 10w, 10x, 10y, 10z, 10aa, 10ab, 10ac, 10ad, 10ae, 10af, 10ag, 10ah, 10aj, 10ak, 10aL, 10am, 10an, 10ap, 10aq, 10ar, 10as, 10at, 10au).

Rhan o dir pori, llystyfiant a llain galed i'r gogledd o Reilffordd y Cambrian, i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487, o fewn Parc Eco Dyfi. (Plot 11).

Rhan o dir pori a llystyfiant coed i'r de o Bont ar Ddyfi i'r gorllewin o Gefnffordd bresennol yr A487. (Plot 12).

**YNG NGHYMUNEDAU TREF MACHYNLLETH A CHORRIS YN SIROEDD POWYS A GWYNEDD**

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A487 a throetffordd/ ffordd feiciau Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 82 ar draws y Bont ar Ddyfi bresennol. (Plot 1d).

Yr hawl i fynd (ac i fynd eto) ar gerrig mân, sianel yr afon a glan yr afon, i fyny'r afon o Bont ar Ddyfi ac i lawr yr afon o Bont Droed y Mileniwm at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw traphont newydd Cefnffordd yr A487. (Plot 13).

**YNG NGHYMUNED CORRIS YN SIR GWYNEDD**

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A487, llain ymyl, llethr toriad, y fynedfa bresennol i fferm Y Ffridd, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 a rhan o fynedfeydd i gaeau, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin, i'r de ac i'r dwyrain o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ mynedfa fferm Y Ffridd ac i'r de o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ y B4404. (Plotiau 1e, 1f, 1g, 1h, 1j, 1k, 1L).

Rhan o dir pori, trac mynediad fferm Y Ffridd a llethr

River Dyfi; part of pasture land, river bank and part of Footpath 14 located west of the existing A487 Trunk Road south of River Dyfi; the right to enter upon pasture land located to the east of existing A487 Trunk Road, north of Dyfi Eco Park and Cambrian Railway for all purposes connected with the construction and maintenance of the flood protection bund and new A487 Trunk Road viaduct; the right to enter upon pasture land located to east of existing A487 Trunk Road south of River Dyfi for all purposes connected with the construction and maintenance of the new A487 Trunk Road viaduct; the right to enter upon pasture land located south of River Dyfi and to west of existing A487 Trunk Road for all purposes connected with the construction and maintenance of the drainage ditch and reinstatement of Footpath 14. (Plots 10, 10a, 10b, 10c, 10d, 10e, 10f, 10g, 10h, 10j, 10k, 10L, 10m, 10n, 10p, 10q, 10r, 10s, 10t, 10u, 10v, 10w, 10x, 10y, 10z, 10aa, 10ab, 10ac, 10ad, 10ae, 10af, 10ag, 10ah, 10aj, 10ak, 10aL, 10am, 10an, 10ap, 10aq, 10ar, 10as, 10at, 10au).

Part of pasture land, vegetation and hardstanding located north of the Cambrian Railway, east of the existing A487 Trunk Road, within the Dyfi Eco Park. (Plot 11).

Part of pasture land and tree vegetation located south of Pont-ar-Ddyfi to the west of the existing A487 Trunk Road. (Plot 12).

**IN THE COMMUNITIES OF MACHYNLLETH TOWN AND CORRIS IN THE COUNTIES OF POWYS AND GWYNEDD**

Part of existing A487 Trunk Road and footway/ cycleway of the Wales Coast Path and National Cycle Route No.82 across existing Pont-ar-|Ddyfi. (Plot 1d).

The right to enter (and re-enter) upon shingle, river channel and river bank, located upstream of Pont-ar-Ddyfi and downstream of Millennium Footbridge for all purposes connected with the construction and maintenance of the new A487 Trunk Road viaduct. (Plot 13).

**IN THE COMMUNITY OF CORRIS IN THE COUNTY OF GWYNEDD**

Part of existing A487 Trunk Road, verge, cutting slope, existing Y Fridd Farm access, part of National Cycle Route No.8 and part of field accesses into enclosures, located north of River Dyfi west, south and east of existing A487 Trunk Road/ Y Fridd Farm access junction and south of existing A487 Trunk Road/ B4404 junction. (Plots 1e, 1f, 1g, 1h, 1j, 1k, 1L).

Part of pasture land, Y Fridd Farm access track and

toriad i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A487 (Plot 4).

Rhan o dir pori, hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, llain ymyl, llethr toriad, coetir a thrac mynediad presennol i gerbydau i fferm Y Ffridd i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A487, i'r de-orllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ y B4404 ac i'r de o fferm Y Ffridd; rhan o dir pori, glan yr afon, llystyfiant, coetir a Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 i'r gogledd o afon Dyfi, i'r de ac i'r dwyrain o Gefnffordd bresennol yr A487, i'r de o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ y B4404 ac i'r gogledd o bont droed bresennol y Mileniwm; yr hawl i fynd ar dir pori a llethr toriad i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A487 i'r gorllewin ac i'r dwyrain o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ mynedfa fferm Y Ffridd at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw'r briffordd newydd a'r briffordd wedi ei gwella, cloddwaith cysylltiedig a ffensys i rwystro mamaliaid; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gogledd o afon Dyfi i'r dwyrain o Lwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 8 i'r de o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ y B4404 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw traphont Cefnffordd yr A487, y pentan gogleddol, y trac mynediad a'r ataliwr petrol. (Plotiau 4aw, 4ax, 4ay, 4az, 4ba, 4bb, 4bc, 4bd, 4be, 4bf, 4bg, 4bh, 4bj, 4bk, 4bL, 4bm, 4bn, 4bp, 4bq, 4br, 4bs, 4bt, 4bu, 4bv, 4bw, 4bx, 4by, 4bz, 4ca, 4cb, 4cc).

Rhan o hanner lled ffordd ddosbarthiadol yr A493 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 a Llwybr Arfordir Cymru, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493. (Plot 13a).

Rhan o hanner lled ffordd ddosbarthiadol yr A493 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 a Llwybr Arfordir Cymru, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 1; rhan o lain galed i'r gorllewin o Dyfi Cottage Rhif 1 i'r gogledd o'r A493 bresennol. (Plotiau 14, 14a, 14b).

Rhan o hanner lled ffordd ddosbarthiadol yr A493 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 a Llwybr Arfordir Cymru, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 2. (Plot 15).

Rhan o hanner lled ffordd ddosbarthiadol yr A493 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 a Llwybr Arfordir Cymru, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 3. (Plot 16).

Rhan o hanner lled ffordd ddosbarthiadol yr A493 a

cutting slope located north of existing A487 Trunk Road (Plot 4).

Part of pasture land, half width of existing A487 Trunk Road, verge, cutting slope, woodland and existing vehicular access track to Y Fridd Farm located north of existing A487 Trunk Road, southwest of existing A487 Trunk Road/ B4404 junction and south of Y Fridd Farm; part of pasture land, river bank, vegetation, woodland and National Cycle Route No.8 located north of River Dyfi, south and east of existing A487 Trunk Road, south of existing A487 Trunk Road/ B4404 junction and north of existing Millennium footbridge; the right to enter upon pasture land and cutting slope located to the north of the existing A487 Trunk Road to the west and east of existing A487 Trunk Road/ Y Fridd Farm access junction for all purposes connected with the construction and maintenance of the new highway and improved highway, associated earthworks and mammal proof fencing; the right to enter upon pasture land located north of River Dyfi to east of National Cycle Route No.8 south of existing A487 Trunk Road/ B4404 junction for all purposes connected with the construction and maintenance of the A487 Trunk Road Viaduct, northern abutment, access track and petrol interceptor. (Plots 4aw, 4ax, 4ay, 4az, 4ba, 4bb, 4bc, 4bd, 4be, 4bf, 4bg, 4bh, 4bj, 4bk, 4bL, 4bm, 4bn, 4bp, 4bq, 4br, 4bs, 4bt, 4bu, 4bv, 4bw, 4bx, 4by, 4bz, 4ca, 4cb, 4cc).

Part of the half width of the A493 classified road and National Cycle Route 82 and Wales Coast Path, located north of River Dyfi west of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction. (Plot 13a).

Part of the half width of the A493 classified road and National Cycle Route 82 and Wales Coast Path, located north of River Dyfi west of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and south of the property Dyfi Cottage No.1; part of hardstanding located to west of Dyfi Cottage No.1 north of the existing A493. (Plots 14, 14a, 14b).

Part of the half width of the A493 classified road and National Cycle Route 82 and Wales Coast Path, located north of River Dyfi west of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and south of the property Dyfi Cottage No.2. (Plot 15).

Part of the half width of the A493 classified road and National Cycle Route 82 and Wales Coast Path, located north of River Dyfi west of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and south of the property Dyfi Cottage No.3. (Plot 16).

Part of the half width of the A493 classified road and National Cycle Route 82 and Wales Coast Path,

Llwybr Beicio Cenedlaethol 82 a Llwybr Arfordir Cymru, i'r gogledd o afon Dyfi i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 4. (Plot 17).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o Bont ar Ddyfi ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 5. (Plot 18).


Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o Bont ar Ddyfi ac i'r de o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 6. (Plot 19).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o afon Dyfi i'r dwyrain o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r de o'r eiddo o'r enw Hen Gapel (Ysgoldy). (Plot 20).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o afon Dyfi i'r dwyrain o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r gogledd o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 7. (Plot 21).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, i'r gogledd o afon Dyfi i'r dwyrain o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ yr A493 ac i'r gogledd o'r eiddo o'r enw Dyfi Cottage Rhif 8. (Plot 22).

Rhan o hanner lled Cefnffordd bresennol yr A487, tir pori, coetir a glan yr afon i'r gogledd o afon Dyfi, i'r gorllewin o gyffordd bresennol Cefnffordd yr A487/ trac mynediad fferm Y Ffridd. (Plotiau 23, 23a).



**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

located north of River Dyfi west of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and south of the property Dyfi Cottage No.4. (Plot 17).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, located north of Pont-ar-Ddyfi and south of the property Dyfi Cottage No.5. (Plot 18).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, located north of Pont-ar-Ddyfi and south of the property Dyfi Cottage No.6. (Plot 19).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, located north of River Dyfi east of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and south of the property known as Hen Capel (Ysgaldy). (Plot 20).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, located north of River Dyfi east of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and north of the property Dyfi Cottage No.7. (Plot 21).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, located north of River Dyfi east of the existing A487 Trunk Road/ A493 junction and north of the property Dyfi Cottage No.8. (Plot 22).

Part of the half width of the existing A487 Trunk Road, pasture land, woodland and river bank located north of River Dyfi, west of the existing A487 Trunk Road/ Y Fridd Farm access track junction. (Plots 23, 23a).



**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government